# Croeso i Gyfeiriadur Hyfforddiant Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint

Mae'r tîm Datblygu'r Gweithlu yn falch iawn o gael rhannu ein cyfeiriadur hyfforddiant 2025-2026.

Mae'r hyfforddiant yn y cyfeiriadur hwn wedi'i restru dan 4 maes pwnc ar wahân, ac mae'r cyrsiau wedi'u rhestru yn nhrefn y wyddor. Mae gwybodaeth am bob cwrs wedi'i nodi isod ac ar ddiwedd pob maes pwnc ceir calendr o ddyddiadau. Mae'r manylion llawn, yn cynnwys deilliannau dysgu, ar gael drwy ein cronfa ddata hyfforddiant neu ar gais drwy anfon neges i wdt@flintshire.gov.uk.

Noder, mae dulliau cyflwyno'r hyfforddiant yn parhau i fod yn gymysgedd o hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb, ac mae'r sesiynau wyneb yn wyneb yn cael eu cynnig yn ystafell hyfforddi tîm datblygu'r gweithlu (Canolfan Fusnes Maes Glas o 15 Ebrill) a lleoliadau cymunedol fel y bo'n briodol. Gwiriwch gronfa ddata hyfforddiant y Gwasanaethau Cymdeithasol i gael manylion yn ymwneud â phob cwrs.

Efallai y bydd rhagor o ddyddiadau ar gael yn ystod y flwyddyn, a bydd y rhain yn cael eu hysbysebu yn unol â hynny. Cofiwch wirio cronfa ddata hyfforddiant y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r calendr yn rheolaidd i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Tra bod y rhan fwyaf o'r hyfforddiant a restrir yn y llyfryn hwn yn **rhad ac am ddim**, mae'n bwysig cofio y bydd ein cynllun talebau hyfforddiant ar gyfer darparwyr annibynnol yn dechrau fis Ebrill. Ar gyfer y sector hwn yn unig, efallai y codir tâl ar gyfer y Pasbort Symud a Lleoli a'r cwrs glywi, meddyginiaeth a chwrs lefel 2 Hylendid Bwyd. Mae ein polisi codi tâl ar gyfer diffyg presenoldeb neu ganslo ar fyr rybudd yn dal yn weithredol.

Yng nghefn y cyfeiriadur, rydym ni wedi cyfeirio at hyfforddiant ar-lein AM DDIM a all fod o ddefnydd i chi. Fodd bynnag, **nid ydym ni'n ardystio'r hyfforddiant hwn – cyfrifoldeb yr unigolyn a'i reolwr yw penderfynu pa mor addas yw'r hyfforddiant.**

**Sut i wneud cais ar gyfer ein cyrsiau:**

Dylai pob ymgeisydd mewnol wneud cais drwy Gronfa Ddata Hyfforddiant y Gwasanaethau Cymdeithasol.
https://internalapps01/FCC_SocialServicesTraining/Home/HomePage

Dylai staff nad ydynt yn gweithio i Gyngor Sir y Fflint lenwi ffurflen gais allanol.
External Staff.xlsx

**Tîm Datblygu'r Gweithlu**

| **Swydd** | **Enw** | **Manylion cyswllt** |
|---|---|---|
| Rheolwr Datblygu'r Gweithlu | Jackie Goundrey | 01352 702670 |
| Cydlynydd Addysgwyr Ymarfer<br>Addysgwr Ymarfer | Carol Armstrong<br>Sonia Pugh | 01352 702661<br>01352 702567 |
| Swyddog Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu | Lesley Parry<br>Claire Edwards | 01352 702597<br>01352 702676 |

| | | |
|---|---|---|
| | Anna Davis | 01352 702598 |
| Asesydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Fran Frost<br>Emily Jones (nee Humphreys)<br>Kath Fleet<br>Stacey Spender<br>Kerry Jones | 01352 702969<br>01352 702970<br>01353 702595<br>01352 702671<br>01352 702657 |
| Gweinyddu/Cymorth Busnes | Vicki Williams<br>Susie Preston | 01352 702657<br>01352 702656 |

**Sut i gysylltu â ni.**

Cyfeiriad e-bost Tîm Datblygu'r Gweithlu yw**:** wdt@flintshire.gov.uk

Rhif ffôn ymholiadau cyffredinol**:** 01352 702591

**Cynnwys**


Pynciau'n gysylltiedig ag iechyd – tudalennau 5 - 12

Pynciau'n gysylltiedig â Chyngor, Arweiniad a Gwybodaeth – tudalennau 13- 19

Cymorth a Datblygu Ymarfer – tudalennau 20-23

Diogelu – tudalennau 24 - 30

Hyfforddiant pellach / Gwybodaeth – tudalennau 31 - 36

# Pynciau'n gysylltiedig ag iechyd

| **Teitl y Cwrs** | **Manylion y cwrs** |
|---|---|
| Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth | Mae nifer o fodiwlau e-ddysgu ar gael drwy'r ddolen ganlynol:- https://autismwales.org/cy/adnoddau/dysgu-electronig/ |
| Ymwybyddiaeth o Ddementia ar gyfer Staff Gofal | Mae'r gweithdy hanner diwrnod **wyneb yn wyneb** hwn ar Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddementia yn benodol ar gyfer unigolion sy'n gweithio yn y sector gofal ac mae wedi'i ddylunio i sicrhau bod gan staff ddigon o wybodaeth a sgiliau i ddarparu gofal dementia tosturiol priodol, o ansawdd uchel. |
| Bws Dementia<br>(Profiad Rhithiol o Ddementia) | Mae'r Daith Rithwir Dementia yn rhoi profiad i gyfranogwyr o sut beth all dementia fod drwy ddefnyddio offer arbenigol a chreu amgylchedd efelychiadol. Bydd disgwyl i'r cyfranogwyr gyflawni tasgau syml yn ystod y daith a byddan nhw'n gallu cydymdeimlo â heriau y gall pobl sydd â dementia fod yn eu hwynebu. Mae'r Daith Rithwir Dementia yn cael ei chyflwyno mewn (cerbyd) efelychydd symudol, ac mae pob sesiwn **wyneb yn wyneb** yn para tair awr. Bydd tri cyfranogwr ar y tro yn treulio 10 munud ar y bws, cyn mynd i'r sesiwn ôl-drafod a'r sesiwn hyfforddi ar ôl hynny. |
| Ymwybyddiaeth o Ffrindiau Dementia | Bydd y sesiwn awr o hyd **wyneb yn wyneb** hon yn eich ysbrydoli chi i ddod yn Ffrind Dementia, gan ymrwymo i wneud rhywbeth a fydd yn gwella rywfaint ar fywydau pobl sydd â dementia. Byddwch chi'n gadael y sesiwn â bathodyn Ffrind Dementia y gallwch chi ei wisgo i ddangos eich cefnogaeth i bobl sydd â dementia. |
| Dementia - gwrandewch arna i, ystyriwch fi, cefnogwch fi. | Bydd y sesiwn undydd **wyneb yn wyneb** hon yn annog cyfranogwyr i drafod cefnogi'r rheiny sy'n byw gyda dementia i sicrhau bod unigolion yn cael eu gweld, eu clywed a'u cefnogi mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Anogir cyfranogwyr i gwblhau sesiwn Ymwybyddiaeth o Ddementia cyn dod i'r sesiwn hon. |
| Cwrs Dehongli Dementia | Mae'r cwrs tair awr **wyneb yn wyneb** hwn yn eich helpu chi i werthfawrogi sut beth ydi colli eich gallu i gyfathrebu ar lafar a'r heriau cysylltiedig. Mae pobl sydd â dementia yn wynebu newidiadau a heriau cyfathrebu wrth i'r clefyd ddatblygu. Mae'n gyffredin i bobl golli eu gallu i siarad fel yr oedden nhw'n arfer ei wneud cyn y clefyd. Pan fydd hyn yn digwydd mae'r |

| Teitl y Cwrs | Manylion y cwrs |
|---|---|
| | ymennydd yn chwilio am ffyrdd newydd o gyfathrebu. Gall hynny fod drwy weithredoedd, synau, ymddygiad ac iaith y corff. Gellir galw hyn yn iaith dementia. Mae Dehonglydd Dementia yn rhywun sy'n gallu helpu i ddehongli gweithredoedd, synau, ymddygiad ac iaith y corff yn iaith ddealladwy y gellir ei hadnabod. |
| Hyfforddiant DIET (Dining Immersive Experiential Training), hyfforddiant sy'n cwmpasu pob agwedd ar fwyta a hynny drwy brofiadau<br><br>Hyfforddiant Dementia | Mae DIET yn gwrs hyfforddi **wyneb yn wyneb** sy'n cyfuno elfennau o ddysgu trwy brofiad, dysgu yn yr ystafell ddosbarth a thrafodaethau grŵp i helpu dysgwyr i ddeall rhai o'r anawsterau y gallai pobl â dementia eu hwynebu yn ystod amser bwyd. Fel rhywun sy'n cymryd rhan yng nghwrs DIET, byddwch chi'n ymchwilio i amrywiaeth o ffactorau a allai ddylanwadu ar y bwyd y mae pobl yn ei fwyta a'r hylif y mae pobl yn ei yfed, yn gadarnhaol ac yn negyddol, ac yn darganfod ffyrdd o gefnogi pobl i fwyta ac yfed.<br><br>Mae DIET yn ymwneud â gwella'ch dealltwriaeth ac edrych ar ffyrdd newydd o gefnogi pobl a'r nod yw cynyddu faint o fwyd a diod y mae pobl yn ei fwyta/yfed a sicrhau bywyd gwell iddynt. |
| Epilepsi a Meddyginiaeth Achub | Nod yr hyfforddiant **ar-lein** 2 awr o hyd yw rhoi gwybodaeth i gyfranogwyr am Epilepsi, yr achosion, y mathau a dosbarthiad ffitiau. Bydd deunyddiau darllen yn cynnwys dolenni i ganllawiau NICE a'r ffurflenni asesu a sgiliau yn cael eu hanfon ar gyfer y cwrs ar-lein, fel arfer tua wythnos cyn i'r cwrs ddechrau. Mae'r cwrs yn rhyngweithiol ac mae angen i staff fod wedi darllen y deunyddiau darllen cyn yr hyfforddiant. |
| Ymwybyddiaeth Diogelwch Bwyd (heb ei achredu) | Mae'r cwrs **ar-lein** hanner diwrnod hwn ar gyfer staff lleoliadau gofal cymdeithasol sy'n ymgymryd â gweithgareddau paratoi bwyd ysgafn. Mae hwn yn gwrs <u>heb ei achredu</u> sy'n cynnig ymwybyddiaeth sylfaenol o ddiogelwch bwyd. |
| Hylendid Bwyd lefel 2 | Mae'r cwrs undydd ac **wyneb yn wyneb** hwn ar gyfer staff lleoliadau gofal cymdeithasol sy'n paratoi ac yn trin bwyd risg uchel heb ei lapio. Mae'r pynciau a fydd yn cael sylw yn cynnwys peryglon a rheoli, rheoli diogelwch bwyd a rheoli tymheredd, a swyddogaeth y sawl sy'n trin bwyd o ran cadw bwyd yn ddiogel. |
| Iechyd a Lles: o'r corun sawdl | Nod y cwrs hanner diwrnod ac **wyneb yn wyneb** hwn yw helpu gweithwyr gofal i ddeall anghenion unigolion yn eu gofal nhw, o'u corun i'w sawdl. Mae'r cwrs hwn yn cyd-fynd yn agos |

| Teitl y Cwrs | Manylion y cwrs |
|---|---|
| | ag unedau sy'n rhan o gymhwyster craidd ac ymarfer Iechyd a Gofal Lefel 2 a 3 ac mae ganddo ganlyniadau clir sy'n canolbwyntio ar iechyd a gofal y geg, maeth a hydradiad, gofal traed, gofal gwasgbwyntiau, gofal personol a rheoli ymataliaeth o ran y cyswllt rhwng iechyd a lles diffygiol a diogelu. |
| Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl a Hunanladdiad FEDRA' I | Bydd y cwrs ymwybyddiaeth **ar-lein** 3 awr o hyd hwn yn sicrhau dealltwriaeth o hunanladdiadau ac yn canolbwyntio ar y sgiliau sydd eu hangen i helpu unigolyn sydd mewn perygl o gyflawni hunanladdiad neu'n bygwth hynny. |
| Rheoli Heintiau | Mae'r modiwl e-ddysgu hwn ar gael i bob aelod o staff drwy'r ddolen ganlynol:- https://gofalcymdeithasol.cymru/modiwlau-dysgu/gwybodaeth-dealltwriaeth-a-chymhwysiad-cadarn-o-atal-a-rheoli-heintiau |
| Meddyginiaeth | Mae'r cwrs **wyneb yn wyneb** undydd hwn yn cynnwys materion yn ymwneud â thrin meddyginiaeth yn ddiogel, yn cynnwys trefniadau derbyn, storio a gwaredu meddyginiaeth gan staff gofal cymdeithasol sy'n darparu gofal uniongyrchol. Gall hefyd gynnwys monitro systemau dosau, yn ogystal â phynciau cysylltiedig eraill. |
| Cwrs Gloywi Meddyginiaeth | Mae'r cwrs hanner diwrnod **wyneb yn wyneb** hwn yn rhoi cyfle i'r rhai sydd eisoes wedi cwblhau'r cwrs diwrnod llawn, atgoffa'u hunain o'u gwybodaeth ac ymarfer ar ôl cyfnod o 3 blynedd. Mae'r cwrs yn ymdrin â materion yn ymwneud â thrin meddyginiaeth yn ddiogel, yn cynnwys trefniadau derbyn, storio a gwaredu meddyginiaeth gan staff gofal cymdeithasol sy'n darparu gofal uniongyrchol. |
| Iechyd Meddwl – Iselder, gorbryder ac anhwylderau personoliaeth | Mae'r cwrs **ar-lein** undydd hwn yn cyflwyno'r prif faterion sy'n codi wrth weithio gyda rhywun sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl fel iselder, gorbryder neu bobl sydd wedi derbyn diagnosis o anhwylder personoliaeth. Bydd y cwrs yn edrych ar natur y rhan fwyaf o'r cyflyrau a geir diagnosis ar eu cyfer ac yn archwilio cymhlethdod anhwylder personoliaeth, yn cynnwys anhwylder personoliaeth ffiniol ac anhwylderau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac eraill. |
| Iechyd Meddwl - Rheoli Gorbryder | Mae'r sesiwn **wyneb yn wyneb** 3 awr hon wedi'i datblygu i gefnogi staff sy'n gweithio ar draws y maes gofal cymdeithasol er mwyn iddynt allu adnabod arwyddion gorbryder ynddynt eu hunain ac eraill a meddu ar ymwybyddiaeth o sut i reoli hyn. |

| Teitl y Cwrs | Manylion y cwrs |
|---|---|
| Iechyd Meddwl - Rheoli Straen | Mae'r sesiwn **wyneb yn wyneb** 3 awr hon wedi'i datblygu i gefnogi staff sy'n gweithio ar draws y maes gofal cymdeithasol er mwyn iddynt allu adnabod arwyddion straen ynddynt eu hunain ac eraill a meddu ar ymwybyddiaeth o sut i fynd i'r afael â hyn. |
| Pasbort Symud a Lleoli (deuddydd) | Bwriad y cwrs deuddydd **wyneb yn wyneb** hwn yw diwallu anghenion staff gofal uniongyrchol Sir y Fflint ac mae'n seiliedig ar Gynllun Pasbort a Gwybodaeth Hyfforddiant Codi a Symud Yn Gorfforol Cymru Gyfan y GIG a Llywodraeth Leol. Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, bydd gan y cyfranogwyr ddealltwriaeth dda o gynllun Pasbort Codi a Symud yn Gorfforol Cymru Gyfan, gan sicrhau bod y sgiliau'n gyson ledled Cymru. |
| Cwrs Gloywi Symud a Lleoli | Mae'r cwrs gloywi **ar-lein** undydd hwn yn adolygu ac yn crynhoi dysgu ac ymarfer ynghylch cario llwythi; eistedd, sefyll, cerdded; symudedd yn y gwely; trosglwyddiadau ochrol; a chodi gan ddefnyddio teclynnau codi. Mae gofyn i staff gofal uniongyrchol sydd angen cadw eu Pasbort Symud a Lleoli fynd ar y cwrs gloywi undydd hwn bob 3 blynedd. Mae'n rhaid i staff nad ydynt wedi cwblhau'r cwrs gloywi o fewn yr amserlen 3 blynedd ail-wneud y cwrs Pasbort Symud a Lleoli deuddydd. |
| Symud a Lleoli – Hyfforddi'r Hyfforddwr | Bydd y cwrs **wyneb yn wyneb** tridiau hwn yn galluogi cyfranogwyr i ennill y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i hyfforddi eu staff ar ofynion y Pasbort Symud a Lleoli deuddydd. |
| Cymorth Cyntaf Pediatrig | Mae'r hyfforddiant cymorth cyntaf brys undydd **wyneb yn wyneb** hwn ar gyfer argyfyngau meddygol yn berthnasol i staff sy'n gweithio gyda phlant hyd at 16 oed. |
| Hyfforddiant Gofal Lliniarol a Diwedd Oes | Mae'r cwrs undydd **wyneb yn wyneb** hwn yn cynnwys pob agwedd ar ofal lliniarol a diwedd oes y mae'n bwysig i staff gofal uniongyrchol fod yn ymwybodol ohono. Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn deall y gwahaniaeth rhwng gofal lliniarol a gofal diwedd oes; pwysigrwydd cyfathrebu a gwybod beth sy'n bwysig i'r unigolyn. |
| Camddefnyddio Sylweddau – Pobl Ifanc | Nod y gweithdy **ar-lein** 2 awr hwn yw rhoi gwybodaeth i gyfranogwyr am gamddefnyddio sylweddau a phobl ifanc yn Sir y Fflint. |

| **Teitl y Cwrs** | **Manylion y cwrs** |
|---|---|
| Ymwybyddiaeth o Hunanladdiadau | Mae hyfforddiant am ddim ar gael yn https://zerosuicidealliance.com/ |
| Hyfforddiant gan Versus Arthritis | Mae'r sesiwn 1 awr **ar-lein** hon wedi'i chynllunio i unrhyw un sy'n dod i gysylltiad ag unigolion sy’n dioddef o Arthritis neu gyflyrau Cyhyrysgerbydol eraill, neu i unigolion sydd â diddordeb mewn ehangu eu gwybodaeth am y cyflyrau hyn. |

| Teitl y Cwrs | Darparwr | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr-26 | Chwefror | Mawrth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth | E-ddysgu | | | | | | | | | | | | |
| Ymwybyddiaeth o Ddementia ar gyfer Staff Gofal | Mewnol | | 9 | | | 5 | | | 5 | | | 10 | |
| Bws Dementia (Profiad Rhithiol o Ddementia) | Training 2 Care | | | | | | | | 25 a 26 | | | | |
| Ymwybyddiaeth o Ffrindiau Dementia | Mewnol | | | 3 | | | 26 | | | 8 | | 2 | |
| Dementia – gwrandewch arna i, ystyriwch fi, cefnogwch fi. | Mewnol | | 1 | | 10 | | | 6 | | | 15 | | |
| Cwrs Dehongli Dementia | Training with Hart | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | |
| Hyfforddiant DIET | Training 2 Care | | 13 | | | 12 | | | 4 | | | 4 | |
| Epilepsi a Meddyginiaeth Achub | Epilepsi Cymru | 29 | | | 8 | | | | 5 | | | 10 | |
| Hylendid Bwyd Lefel 2 (wedi'i achredu) | Groundwork Gogledd Cymru. | 9 | 20 | 5 | 29 | | 30 | | 18 | | 20 | 24 | |
| Ymwybyddiaeth Diogelwch Bwyd (heb ei achredu) | Mewnol | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd a Lles: o'r corun i'r sawdl | Mewnol | | 20 | 30 | | | 1 | 20 | | 8 | | 2 | 30 |
| Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl a Hunanladdiad FEDRA' I | FEDRA' I | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | |
| Rheoli Heintiau | E-ddysgu | | | | | | | | | | | | |
| Meddyginiaeth | Mewnol | 28 | | 6 | 7 | 19 | 29 | | 10 | 19 | 27 | | 9 |
| Cwrs Gloywi Meddyginiaeth | Mewnol | 7 | 21 | | 1 | 11 | 26 | | 7 | 18 | 23 | 27 | |
| Iechyd Meddwl – Iselder, gorbryder ac anhwylderau personoliaeth | Talking Life | | | 25 | | | | | | | | | |
| Iechyd Meddwl – rheoli gorbryder | JDS Training | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | |
| Iechyd Meddwl – Rheoli Straen | JDS Training | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | |
| Pasbort Symud a Lleoli (deuddydd) | Mewnol | 16 | 7 a 29 | 17 | 17 a 31 | 21 | 11 | 10 a 23 | 12 | 4 | 8 a 29 | 19 | 12 |
| Cwrs Gloywi Symud a Lleoli | Mewnol | 4 | 12 | 2 a 27 | 21 | 15 | 5 a 22 | 17 | 3 a 28 | 15 | 12 | 6 a 23 | 20 |
| Symud a Lleoli – Hyfforddi'r Hyfforddwr | Mewnol | 1 | 14 | 23 | | 4 | 17 | 27 | | 10 | | | |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Cyntaf Pediatrig Brys – Lefel 3 | Groundwork Gogledd Cymru. | | 21 | | 30 | | | 1 | | | 21 | | |
| Hyfforddiant Gofal Lliniarol a Diwedd Oes | Mewnol | | 28 | | | 12 | | 16 | | | 22 | | 19 |
| Camddefnyddio Sylweddau – pobl ifanc | Sorted Project | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | |
| Hunanladdiad | E-ddysgu | | | | | | | | | | | | |
| Hyfforddiant gan Versus Arthritis | Versus Arthritis | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | |

## Pynciau'n gysylltiedig â Chyngor, Arweiniad a Gwybodaeth

| | |
|---|---|
| Ymwybyddiaeth o Eiriolaeth | Mae Gwasanaethau Eiriolaeth Gogledd Ddwyrain Cymru yn cynnig eiriolaeth annibynnol ledled Sir y Fflint a Wrecsam. Bydd y sesiwn anffurfiol **ar-lein** hon yn esbonio pa eiriolaeth sydd ar gael i unigolion sydd ag anghenion gofal a chymorth.<br>Bydd y sesiwn yn cynnig gwybodaeth am Eiriolaeth Gymunedol, Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol a Chynrychiolydd Unigolion Perthnasol. |
| Ymwybyddiaeth o Eiriolaeth – plant a phobl ifanc | Mae'r sesiwn ymwybyddiaeth **ar-lein** un awr hon yn amlygu pwy a phryd i wneud atgyfeiriad at eiriolaeth statudol plant yn Sir y Fflint. |
| Ymwybyddiaeth o Eiriolaeth – rhieni | Mae'r sesiwn ymwybyddiaeth ar-lein un awr hon yn amlygu pryd i wneud atgyfeiriad at eiriolaeth rhiant yn Sir y Fflint. |
| Eiriolaeth – Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol | Mae'r sesiwn ymwybyddiaeth ar-lein un awr hon yn amlygu pryd i wneud atgyfeiriad ar gyfer Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol statudol i gefnogi preswylwyr Sir y Fflint. |
| Eiriolaeth – Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol | Mae'r sesiwn ymwybyddiaeth ar-lein un awr hon yn amlygu pryd i wneud atgyfeiriad ar gyfer Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol statudol i gefnogi preswylwyr Sir y Fflint. |
| Anghenion ac Ymwybyddiaeth Gofalwyr – **Oedolion**.<br>'Yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw' | Mae'r gweithdy dwy awr **ar-lein** hwn yn codi ymwybyddiaeth o'r materion a'r amgylchiadau y mae gofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr ifanc di-dâl yn eu hwynebu, ac effaith eu rôl ofalu ar eu lles eu hunain. Mae'n cynnwys y cyfrifoldebau statudol newydd, diffiniad o ofalwyr a'r hawliau dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'n egluro beth yw hyrwyddo cymorth cymesur i ofalwyr, yn cynnwys gwybodaeth, cyngor, cyfeirio at asesiadau a chydweithio. |
| Anghenion ac Ymwybyddiaeth Gofalwyr - **Gofalwyr Ifanc**. 'Yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw' | Mae'r gweithdy ar-lein hwn yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei lansio yn ystod 2024/25. Bydd dyddiadau a rhagor o wybodaeth yn cael eu cylchredeg yn unol â hynny. |

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant 'Rhaeadr' Gofal Iechyd Parhaus y GIG | Mae cefnogaeth unigol ar gael gan Gydlynydd CHC. |
| Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol wrth Ymgysylltu â'r Gymuned | Nod y gweithdy ymwybyddiaeth tair awr **ar-lein** hwn yw darparu gwybodaeth a dealltwriaeth ehangach o'r gwahaniaeth rhwng diwylliannau a chrefyddau penodol a'r gwahaniaethu maen nhw'n ei wynebu. Mae'r cwrs yn archwilio nifer o wahanol ddiwylliannau a'u hanes ac yn rhoi cyngor ymarferol ar oresgyn y rhwystrau i gyfathrebu ac ymgysylltu â chymunedau amrywiol. |
| Gwydnwch Digidol (Plant a Phobl Ifanc) | Nod y sesiwn 2 awr a hanner **ar-lein** hon yw addysgu a meithrin hyder cyfranogwyr ynglŷn â materion yn ymwneud â diogelwch ar y rhyngrwyd ac amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cam-drin ar-lein, ac mae'r wybodaeth wedi'i theilwra i anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol. |
| Urddas yn y Gwaith: Creu Amgylchedd Gweithio Cadarnhaol | Bydd y gweithdy rhyngweithiol 3 awr **wyneb yn wyneb** hwn yn gyfle i'r unigolion sy'n bresennol archwilio'r sylfeini ar gyfer creu amgylchedd gweithio cadarnhaol. Bydd y sesiwn yn edrych ar ddiwylliant y sefydliad, gwaith tîm a diwylliant timau ac yna'n edrych ar gyfraniad a chyfrifoldebau unigolion o ran creu amgylchedd gweithio cadarnhaol. |
| ac ymarfer yn seiliedig ar gryfder | Mae'r gweithdy hanner diwrnod **wyneb yn wyneb** hwn yn archwilio cyd-destun presennol Taliadau Uniongyrchol yn gysylltiedig â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r cyfleoedd ar gyfer grymuso, meddwl yn greadigol ac arloesedd. Mae'n gyfle i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl, sut y gellir eu cefnogi nhw i gyflawni canlyniadau pwrpasol, a chael atebion i gwestiynau y gallen nhw eu gofyn i chi. |
| Taliadau Uniongyrchol: Hyfforddiant penodol i Gynorthwywyr Personol | Mae'r gweithdy hanner diwrnod **wyneb yn wyneb** hwn yn archwilio cyd-destun presennol Taliadau Uniongyrchol yn gysylltiedig â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r cyfleoedd ar gyfer grymuso, meddwl yn greadigol ac arloesedd. Mae'n gyfle i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl, sut y gellir eu cefnogi nhw i gyflawni canlyniadau pwrpasol, a chael atebion i gwestiynau y gallen nhw eu gofyn i chi. |
| Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) (DU) a Diogelu Data | Dylai staff mewnol CSyFf fynd at y modiwl e-ddysgu drwy Learning@Wales. |

| | |
|---|---|
| Gweithdai Cyflwyno | Mae’r gweithdy **ar-lein** awr o hyd hwn yn gyfle i chi gwrdd â dechreuwyr newydd eraill Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint a dysgu am ein prosesau a’n dulliau gweithio. Sylwer – mae’r sesiynau hyn ar gyfer dechreuwyr newydd Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint yn unig. |
| Cyflwyniad i staff gofal a chymorth uwch | Bydd y gweithdy cyflwyno newydd **ar-lein** hwn i Staff Gofal a Chymorth Uwch yn rhoi sylw i rannu gwybodaeth am arferion, polisïau a systemau hyfforddi a ddefnyddir, gan gynyddu dealltwriaeth ynghylch eich rôl uwch. Bydd y gweithdy hwn yn arbennig o ddefnyddiol i Staff Gofal a Chymorth Uwch sydd newydd eu penodi. |
| Cyflwyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Mae modiwl e-ddysgu ar gael drwy Ofal Cymdeithasol Cymru.<br><br>https://gofalcymdeithasol.cymru/modiwlau-dysgu/egwyddorion-y-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-a-llesiant-oedolion-a-phlant-pobl-ifanc |
| Gweithdy Llinell Gymorth Byw Heb Ofn | Bydd y gweithdy ar-lein hwn yn rhoi gwybod i bob aelod o staff am y cymorth sydd ar gael gan Linell Gymorth Byw Heb Ofn. Mae Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, y gwasanaeth cenedlaethol i Gymru, ar gyfer dioddefwyr yn ogystal â ffrindiau, teulu a sefydliadau proffesiynol.<br><br>Mae'r Llinell Gymorth yn cynnig clust i wrando a hynny’n ddwyieithog a chyfrinachol 24/7/365 i bawb sy'n dioddef camdriniaeth mewn man diogel nad yw’n feirniadol. |
| Deddf Galluedd Meddyliol yn cynnwys Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid/Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (ac Asesydd Lles Pennaf) | Mae’r cwrs hanner diwrnod **ar-lein** hwn yn ceisio gwella’ch gwybodaeth am y Ddeddf. Mae’r hyfforddiant yn edrych ar sut y dylai staff gefnogi unigolion i reoli eu bywydau cymaint â phosibl ac yn adolygu cyfreithlondeb gwneud penderfyniadau er lles pennaf. Mae’n herio diwylliant gweithio caeëdig ac yn sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth drwyadl o hawliau unigolion yn ogystal â rhwymedigaethau cyfreithiol staff. |
| Deddf Iechyd Meddwl (gan gynnwys rôl Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Cymeradwy) | Nod y cwrs undydd **ar-lein** hwn yw datblygu a gwella gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr nad ydynt yn arbenigwyr am y Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae deall y brif ddeddfwriaeth sy’n berthnasol i’r Ddeddf Iechyd Meddwl, yn ogystal â’r swyddogaethau a’r pwerau y caiff eu |

| | |
|---|---|
| | cynnwys ym mhrif adrannau'r Ddeddf, yn elfennau allweddol o'r hyfforddiant hwn. Mae'r cwrs hefyd yn helpu cyfranogwyr i ddeall rôl y Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy. |
| Sesiwn atgoffa - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Mae'r fideos hyn wedi'u dylunio i atgoffa'r aelodau staff hynny sy'n gyfarwydd â'r Ddeddf. Gellir gweld y rhain ar y dolenni canlynol:- https://www.youtube.com/watch?v=SJSEvUupinM https://www.youtube.com/watch?v=-Ci5WByP6Gw |
| Gwerthoedd o fewn Gofal Cymdeithasol | Bydd y gweithdy 3 awr **wyneb yn wyneb** rhyngweithiol hwn yn herio'r unigolion sy'n bresennol i werthuso eu gwerthoedd personol, deall pwysigrwydd gwerthoedd sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gwerthuso sut gall ymddygiad effeithio ar y gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yr ydym ni'n ei roi, y timau yr ydym ni'n gweithio'n rhan ohonynt a'r sefydliad yn gyffredinol. |

| Teitl y Cwrs | Darparwr | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr-26 | Chwefror | Mawrth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o Eiriolaeth | Gwasanaeth Eiriolaeth Gogledd Ddwyrain Cymru | | | | | | | | 20 | | | | |
| Ymwybyddiaeth o Eiriolaeth – plant a phobl ifanc | TGP Cymru | | | 26 | | | | | | | | | |
| Ymwybyddiaeth o Eiriolaeth – rhieni | TGP Cymru | | | 10 | | | | | | | | | |
| Eiriolaeth – Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol | CADMHAS | | | | | | 12 | | | | | | |
| Eiriolaeth – Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol | CADMHAS | | | | | | 26 | | | | | | |
| Anghenion ac Ymwybyddiaeth Gofalwyr – Oedolion: 'Yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw' | Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | |
| Anghenion ac Ymwybyddiaeth | Gwasanaeth Gwybodaeth i | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofalwyr – Plant: 'Yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw' | Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru | | | | | | | | | | | | |
| 'Rhaeadr' Gofal Iechyd Parhaus y GIG | Cefnogaeth unigol | | | | | | | | | | | | |
| Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol wrth Ymgysylltu â'r Gymuned | Race Equality First | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | |
| Gwydnwch Digidol (Plant a Phobl Ifanc) | Sefydliad Lucy Faithful | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | |
| Urddas yn y Gwaith: Creu Amgylchedd Gweithio Cadarnhaol | Mewnol | | 14 | | | 14 | | | 11 | | | 17 | |
| Taliadau Uniongyrchol ac Ymarfer yn Seiliedig ar Gryfderau | Mewnol | 4 | | 25 | | | 10 | | | 10 | | | |
| Taliadau Uniongyrchol: Penodol ar gyfer Cynorthwywyr Personol | Mewnol | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | |
| Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) (DU) a Diogelu Data – **STAFF CSyFf** | E-ddysgu | | | | | | | | | | | | |
| Gweithdai Cyflwyno | Mewnol | 10 | | | 24 | | | | 14 | | | | 10 |
| Cyflwyniad i staff gofal a chymorth uwch | Mewnol | 10 | | | 24 | | | | 14 | | | | 10 |

| Cyflwyniad i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | E-ddysgu | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithdy Llinell Gymorth Byw Heb Ofn | Cymorth i Ferched Cymru | | | | | | 19 | | | | | | |
| Deddf Galluedd Meddyliol yn cynnwys Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid / Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid | Training with Hart | | | | | | 9 | | | | | 5 | |
| Deddf Iechyd Meddwl (gan gynnwys rôl Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Cymeradwy) | Talking Life | | | | | | 22 | | | | | | |
| Gwerthoedd o fewn Gofal Cymdeithasol | Mewnol | | 14 | | | 14 | | | 11 | | | 17 | |

## Cymorth a Datblygu Ymarfer

| | |
|---|---|
| Meithrin Teuluoedd Cryfach: Hyfforddiant Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd | Mae’r cwrs 3 diwrnod **wyneb yn wyneb** wedi’i gynllunio i ddarparu hyfforddiant yn ein hymyrraeth sy’n seiliedig ar dystiolaeth wrth weithio gyda model cylch newid Prochaska a DiClemente. Rhagwelir y bydd ymarferwyr yn gallu dewis elfennau o'r model Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd neu ddefnyddio'r ymyriad cyfan i wella eu hymarfer eu hunain. Mae’r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd yn darparu ymyriadau sy’n canolbwyntio ar y teulu gan ddefnyddio model a ymchwiliwyd iddo ac y mae tystiolaeth dda ohono sydd wedi profi i fod yn effeithlon i ganolbwyntio ar werthoedd a chredoau teulu ac amlygu eu cryfderau a’u hadnoddau. |
| Gweithdai ymarfer Grwpiau Craidd a Chynhadledd Achos | Nod y gweithdy ymarfer **wyneb yn wyneb** undydd hwn yw rhoi cyfle i ymarferwyr ailystyried, adolygu a gloywi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy gymryd rhan mewn Cynhadledd Achos Amddiffyn Plant a Grwpiau Craidd dilynol yn Sir y Fflint. Mae’r cwrs yn eich paratoi chi ar gyfer eich cyfranogiad, gan egluro’r rhesymau dros gynnal y gynhadledd, ei phwrpas, a rôl cyfranogwyr. Mae'n nodi'r hyn y gallwch chi ei ddisgwyl yn y gynhadledd ei hun, gan fynd â chi drwy broses y gynhadledd hyd at wneud penderfyniadau. Mae'r prynhawn yn canolbwyntio ar grwpiau craidd, eu pwrpas, eu swyddogaethau a’u chyfrifoldebau ac amserlenni. |
| Gweithdy Ymarfer Cronolegau | Nod y gweithdy **wyneb yn wyneb** 3 awr hwn yw rhoi cyfle i ymarferwyr ailystyried, adolygu a gloywi eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth ynghylch diben cronolegau mewn prosesau Diogelu. Bydd y sesiwn yn cefnogi â dealltwriaeth o bwysigrwydd cronolegau fel rhan o'r broses asesu; sut y dylai gefnogi'r dadansoddiad o risgiau; a phwy sy'n gyfrifol amdanynt. Mae'r gweithdai yn rhyngweithiol ac yn llawn gwybodaeth er mwyn cefnogi ymarferwyr i deimlo'n fwy hyderus o ran sut beth yw cronoleg dda a sut i greu un. |
| Hyfforddi a Mentora | Mae’r cwrs **ar-lein** undydd hwn ar gyfer unigolion sydd â chyfrifoldebau rheoli/goruchwylio er mwyn gwella eu sgiliau hyfforddi a mentora, dysgu sgiliau newydd a chreu ymddygiad newydd i gefnogi eu timau a’u helpu i ddringo’r ysgol yrfa. Bydd yn cefnogi staff i ddeall sut i ddatblygu cymhwysedd personol a sut i beidio â datblygu dibyniaethau niweidiol ar gyfer |

| | |
|---|---|
| | perthynas hyfforddi effeithiol. Bydd yn cynnwys gwybodaeth ar sut i ddatblygu mesurau gwrthrychol i olrhain effeithiolrwydd, datblygu ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb y sawl sy'n cael ei hyfforddi a sut i roi hwb i unigolion a thrawsnewid agweddau niweidiol yn rhai cadarnhaol. |
| Blinder trugaredd, anafu moesol a chefnogi cadernid | Mae'r gweithdy undydd hwn yn ceisio codi ymwybyddiaeth o flinder trugaredd ac anafu moesol a sut mae'r rhain yn effeithio ar ymarferwyr mewn lleoliadau gofal cymdeithasol. Mae'r cwrs hwn yn canolbwyntio ar effaith gweithio mewn amgylchedd dwysedd uchel ac emosiynol, ar ymarferwyr. Mae'n ystyried ymarfer sy'n ystyriol o drawma mewn perthynas ag ymarferwyr a sut maen nhw'n gallu cynnal eu gwydnwch mewn lleoliadau gwaith anhrefnus. Mae'r diwrnod yn darparu sylfaen ar gyfer cymryd mesurau gweithredol i gynnal gwydnwch a hunan-ofal gan ystyried effaith y pandemig ochr yn ochr â gweithio mewn lleoliadau ymdrechgar sy'n newid yn gyflym. |
| Arweinyddiaeth Dosturiol | Mae'r hyfforddiant undydd **ar-lein** hwn yn cyflwyno cydsyniad Arweinyddiaeth Dosturiol. Ers blynyddoedd lawer mae pobl wedi ystyried arweinydd yn rhywun sy'n gorchymyn i bobl wneud pethau a phobl eraill yn dilyn. Ond erbyn heddiw mae pethau wedi newid ac yr ydym ni'n gwybod, er mwyn cael y gorau allan o'n pobl, mae'n rhaid i ni gydweithio, dangos parch a bod yn garedig. Rydym ni'n cydnabod bod amrywiaeth o adnoddau sy'n disgrifio diwylliannau tosturiol a chynhwysol ar draws amrywiaeth o sectorau. |
| Sgiliau Sgwrsio | Bydd y cwrs undydd **ar-lein** hwn yn galluogi cyfranogwyr i wella eu sgiliau sgwrsio. Mae'r cwrs wedi'i anelu at unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, teuluoedd a phobl hŷn ac sy'n eu cefnogi. Bydd y cwrs yn archwilio chwilfrydedd proffesiynol, cydymffurfiaeth gelfydd a sut i ymdrin â sgyrsiau anodd yn ogystal â gwella sgiliau cyfathrebu cyffredinol. |
| Technegau Dad-ddwysáu | Bydd yr hyfforddiant **wyneb yn wyneb** undydd hwn ar gyfer staff gofal yn cefnogi ac yn datblygu eu dealltwriaeth o ddad-ddwysáu sefyllfaoedd yn defnyddio technegau llafar, tynnu sylw ac ymyriadau patrwm. Byddwch chi'n trafod sut yr ydym ni'n rheoli ein hymddygiad a'n hymateb ein hunain i sefyllfaoedd sy'n dwysáu, a phwysigrwydd cefnogaeth ar ôl y digwyddiad. |
| Rhaglen Arwain a Rheoli | Mae'r rhaglen 4 diwrnod **wyneb yn wyneb** hon yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth a rheoli a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Bydd y rhaglen 4 diwrnod hon yn cynnig pecyn |

| | |
|---|---|
| | gwaith ymarferol i'r unigolion sy'n bresennol ar gyfer arwain a rheoli nawr ac yn y dyfodol. **MAE'N HANFODOL EICH BOD YN BRESENNOL AR Y 4 DIWRNOD.** |
| Gofal sy'n canolbwyntio ar yr Unigolyn | Mae'r sesiwn hanner diwrnod **ar-lein** hwn yn egluro ac yn archwilio pam mae gofal personol i bob unigolyn yn bwysig. Mae'r sesiwn hon yn adolygu egwyddorion gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ogystal ag archwilio 6 elfen gofal/dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n rhoi trosolwg o ddeddfwriaeth fel y Ddeddf Gofal a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru. Mae'r sesiwn yn cefnogi staff i ddeall sut i ddarparu gofal personol yn eu gwaith dyddiol; sy'n cynnwys llawer o weithgareddau ymarferol i ennyn diddordeb staff a hyrwyddo eu dysgu. |
| Ffiniau Proffesiynol, Chwilfrydedd ac Atebolrwydd | Mae'r cwrs **wyneb yn wyneb** undydd hwn yn gyflwyniad sy'n archwilio ac yn datblygu tasg y gweithiwr cefnogi, yn arbennig o ran ymddygiad proffesiynol, chwilfrydedd proffesiynol, a'r ffiniau priodol yn y berthynas ag unigolion sy'n cael cefnogaeth yn ogystal â'r atebolrwydd a roddir ar yr aelod hwnnw o staff. |
| Ymarfer Myfyriol | Mae'r cwrs hanner diwrnod **ar-lein** hwn ar ymarfer myfyriol yn ddefnyddiol i bob aelod o staff. Gall gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol achosi straen ac mae'r cwrs hwn yn rhoi'r arfau i staff o ran theori ac ymarfer i fyfyrio'n adeiladol ar eu gwaith, yn unigol ac yn rhan o dîm. |

| Teitl y Cwrs | Darparwr | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr-26 | Chwefror | Mawrth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Meithrin Teuluoedd Cryfach | Mewnol | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | |
| Gweithdai Ymarfer Amlasiantaeth Cynhadledd Achos a Grwpiau Craidd | Mewnol | | | | 16 | | | 15 | | | 13 | | |
| Gweithdy Ymarfer Cronolegau | Mewnol | | 7 | | | | | | | | | | |
| Hyfforddi a Mentora | Talking Life | | 21 | | | | | | | | | | |
| Blinder trugaredd, anafu moesol a chefnogi cadernid. | Talking Life | | | | | | | 9 | | | | | |
| Arweinyddiaeth Dosturiol | Talking Life | | 13 | | | | | 8 | | | | | |
| Sgiliau Sgwrsio | Talking Life | | | 13 | | | 30 | | | | | | |
| Technegau Dad-ddwysáu | JDS Training | | | | | | | 1 | | | | 18 | |
| Rhaglen Rheoli ac Arwain | ATF Consultants | 30 | | | | | 3 | | | | | | |
| Gofal sy’n canolbwyntio ar yr Unigolyn | Training with Hart | | | | 1 | | | | | | 27 | | |
| Ffiniau Proffesiynol, Chwilfrydedd ac Atebolrwydd | CAN Training | | | 11 | | | | | 12 | | | | |
| Ymarfer Myfyriol | Training with Hart | | | | | | 22 | | | | | | 5 |

## Diogelu

| | |
|---|---|
| Gofyn a Gweithredu - VAWDASV | Mae'r cwrs hanner diwrnod **ar-lein** hwn yn trafod 'Gofyn a Gweithredu' fel polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer ymholiadau wedi'u targedu. Mae'r term 'ymholiad wedi'i dargedu' yn disgrifio'r broses o gydnabod dangosyddion trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel man cychwyn i weithiwr proffesiynol ofyn i'w cleient a ydyn nhw wedi'u heffeithio gan un o'r materion hyn. Rôl y Gwasanaeth Cyhoeddus cyfan yw cynnig ymateb effeithiol i'r unigolion sy'n wynebu trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. |
| Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant | Mae'r sesiwn ddwy awr **ar-lein** hon yn rhoi gwybod sut y gall camfanteisio'n rhywiol ar blant ddigwydd, beth yw'r risgiau i blant a phobl ifanc a pha gamau y gellid eu cymryd, yn cynnwys themâu fel llinellau sirol a chamfanteisio troseddol. |
| Grŵp A - Ymwybyddiaeth sylfaenol o ddiogelu (staff CSyFf yn unig) | Mae'r modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth sylfaenol ar-lein hwn yn fodiwl gorfodol i bob aelod o staff. Gellir gweld y modiwl Ymwybyddiaeth Diogelu Corfforaethol hwn ar Learning Pool. |
| Grŵp A - Ymwybyddiaeth sylfaenol o ddiogelu (staff nad ydynt yn gweithio i CSyFf) | Mae'r modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth sylfaenol ar-lein hwn ar gael i bawb.<br><br>Y ddolen i'r safle Cymraeg yw Modiwlau dysgu \| Gofal Cymdeithasol Cymru Y ddolen i'r safle Saesneg yw Social Care Wales \| Learning modules |
| Cwrs Diogelu Oedolion a Phlant Grŵp B | Mae'r hyfforddiant undydd **wyneb yn wyneb** hwn ar gyfer ymarferwyr sy'n cael cyswllt rheolaidd ag oedolion, plant ac aelodau'r cyhoedd yn cynnwys rhai mewn lleoliadau grŵp neu ar sail un i un, Grŵp B fel y nodir yn Safonau Hyfforddiant Diogelu Cymru. Bydd yr hyfforddiant yn sicrhau bod y cyfranogwyr yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth; ffyrdd i ddiogelu; arwyddion a symptomau camdriniaeth, niwed ac esgeulustod ac yn gallu adnabod a rhoi gwybod am achosion yn briodol. |
| Grŵp C – Diogelu Plant | Mae'r cwrs 1 dydd **wyneb yn wyneb** hwn ar gyfer cyfranogwyr sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer yr hyfforddiant hwn, yn unol â'r Safonau Diogelu Cenedlaethol, a'r rhai sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu plant Grŵp A a B. |

| | |
|---|---|
| Grŵp C - Diogelu Oedolion | Mae’r cwrs undydd **wyneb yn wyneb** hwn yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei lansio yn ystod 2025256. Bydd dyddiadau a rhagor o wybodaeth yn cael eu cylchredeg yn unol â hynny. |
| Ar goll o Leoliad Gofal | Mae’r cwrs undydd **wyneb yn wyneb** hwn yn ystyried ystyr y term ‘ar goll o leoliad gofal’, y gwahanol ‘gyfleoedd’ pan fydd pobl ifanc yn fwy tebygol o fynd ar goll a’r rhesymau dros hynny, ac yn amlinellu’r weithdrefn y mae’n rhaid i bob sefydliad ei dilyn i ymdrin â’r sefyllfaoedd hyn. Nod y cwrs yw cefnogi ymarferwyr i ystyried y broses gynllunio pan geir hyd i unigolyn ifanc a phan ddaw’r unigolyn yn ôl dan eu gofal, a sut gall rôl ‘oedolyn cyfrifol’ fod yn gysylltiedig ag achosion o blant a phobl ifanc ar goll. Mae’r hyfforddiant hefyd yn rhoi’r cyfle i ystyried y ffaith bod yn rhaid i sefydliadau sicrhau cyfrinachedd a chadw at reoliadau diogelu data, a sut i ymdrin â materion gan gynnwys gweithio gyda’r heddlu ac ymdrin ag ymholiadau gan y wasg. |
| Esgeulustod: Gwella canlyniadau i blant | Mae’r gweithdy hanner diwrnod wyneb yn wyneb hwn yn darparu trosolwg beirniadol o esgeulustod mewn perthynas â diogelu plant ac yn ceisio cefnogi gweithwyr proffesiynol i ddiogelu plant yn effeithiol. Bydd y sesiwn yn edrych ar ddeddfwriaeth sy’n ymwneud ag esgeulustod; datblygu dealltwriaeth o beth yw esgeulustod; cydnabod effaith esgeulustod a sut i ymateb yn briodol i bryderon. |
| Oxford Brain Story | Mae’r hyfforddiant wyneb yn wyneb, hanner diwrnod, hwn yn dangos sut mae’r Oxford Brain Story yn fframwaith sy’n rhannu gwybodaeth wyddonol allweddol gyda’r nod o wella gwydnwch plant bach, teuluoedd a chymunedau. Mae’n dangos pwysigrwydd y blynyddoedd cynnar a sut y gall ein profiadau cynharaf effeithio ar ein hiechyd meddwl a chorfforol hirdymor. Mae’r OBS yn mynegi’r cylch pontio'r cenedlaethau o adfyd o fewn teuluoedd a sut fedrwn ni ddefnyddio’r ddealltwriaeth wyddonol (sydd hefyd wedi’i gynnwys mewn dulliau sy’n ystyriol o drawma) i wella canlyniadau plant ac oedolion yn y dyfodol. |
| Dyletswydd PREVENT – Staff CSyFf yn unig | Mae’r sesiwn ymwybyddiaeth **wyneb yn wyneb** hon, sy’n para tair awr, yn cefnogi staff i ddeall eu cyfrifoldebau proffesiynol o ran diogelu oedolion, plant a phobl ifanc mewn perygl o radicaleiddio. Mae’r sesiwn yn gyflwyniad i’r ddyletswydd PREVENT, ffurfiau ar eithafiaeth a |

| | |
|---|---|
| | therfysgaeth sy’n wynebu’r DU ac yn cefnogi staff i adnabod arwyddion radicaliaeth a deall prosesau adrodd. |
| Atal Cam-drin plant yn rhywiol - pecyn gwaith i ymarferwyr | Mae’r gweithdy rhyngweithiol hanner diwrnod ar-lein hwn ar gyfer ymarferwyr sy’n gweithio gyda theuluoedd neu’r gymuned mewn amrywiaeth o swyddi, ac mae’n ceisio eu cefnogi nhw i ddefnyddio’r pecyn gwaith yn ogystal â rhoi rhagor o wybodaeth iddyn nhw ynghylch atal. Gall eich helpu chi helpu os ydych chi’n gweithio yn y sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol, ac yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy’n byw gartref neu mewn lleoliadau eraill. Mae'r pecyn gwaith hwn, a ddatblygodd Stop it Now! yn rhoi gwybodaeth, cymorth ac adnoddau sydd eu hangen i reoli unrhyw faterion y byddwch chi’n dod ar eu traws nhw yn hyderus ac i drosglwyddo negeseuon allweddol i helpu i amddiffyn plant yn eich cymuned. |
| Gweithwyr Proffesiynol yn Amddiffyn | Nod y sesiwn 2 awr **ar-lein** hon yw codi ymwybyddiaeth a rhoi gwybodaeth i weithwyr proffesiynol ar y ffeithiau yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol a’n cyfrifoldeb ni i’w atal. Bydd y wybodaeth wedi’i theilwra ar gyfer anghenion plant ag anghenion ychwanegol. |
| Cofnodi ac adrodd i weithwyr cymdeithasol | Mae’r cwrs newydd hwn yn cael ei ddatblygu ac ar gael cyn bo hir. |
| Goruchwyliaeth Fyfyriol – hyfforddiant goruchwylio i Reolwyr | Mae’r cwrs newydd hwn yn cael ei ddatblygu ac ar gael cyn bo hir. |
| Deall Ymddygiad Rhywiol Niweidiol | Nod y sesiwn 2 awr **ar-lein** hon yw addysgu a meithrin hyder cyfranogwyr er mwyn iddynt ddeall yr ymddygiadau datblygiadol iach a ddisgwylir a’r ymddygiad nad yw’n briodol a all achosi niwed neu wneud y plentyn yn fwy diamddiffyn, a ffyrdd effeithiol o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i siarad am gamdriniaeth bosibl neu ymddygiad rhywiol niweidiol. |
| Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) | Dylai staff mewnol CSyFf fynd at y modiwl e-ddysgu ar Learning@Wales |

| | |
|---|---|
| Trais yn Erbyn Merched, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)<br><br>**(ar gyfer staff uwch)** | Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer VAWDASV ac yn arbennig cyfres 'Cryfhau Arweinyddiaeth' Grŵp 6 o ffilmiau byrion sydd ar gael ar YouTube i bob Uwch Arweinydd:<br><br>https://www.youtube.com/playlist?list=PLHBVoCVw4XZTkS1jSCYuVLiYEIvddPrnS<br><br>Mae'r gyfres hon o ffilmiau byrion wedi'i hanelu at Uwch Arweinwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac mae gennym ni gyfrifoldeb deddfwriaethol i gwblhau pob lefel o'r hyfforddiant. |

| Teitl y Cwrs | Darparwr | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr-26 | Chwefror | Mawrth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofyn a Gweithredu - VAWDASV | Mewnol | | | 10 | | | | 9 | | | 21 | | |
| Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant | Sefydliad Lucy Faithful | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | |
| Ar goll o Leoliad Gofal | CAN Training | | | | | | 2 | | | | | | |
| Esgeulustod: Gwella canlyniadau i blant | Mewnol | | 21 | | | | | 7 | | | | | |
| Oxford Brain Story | Mewnol | 10 | | | | | | | | | | | |
| Y ddyletswydd PREVENT | Mewnol | | 13 | | 2 | | | 8 | | 3 | | 4 | |
| Atal Cam-drin plant yn rhywiol – pecyn gwaith i ymarferwyr | Sefydliad Lucy Faithful | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | |
| Gweithwyr Proffesiynol yn Amddiffyn | Sefydliad Lucy Faithful | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | |
| Cofnodi ac adrodd i weithwyr cymdeithasol | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | | |
| Goruchwyliaeth Fyfyriol – hyfforddiant goruchwylio i Reolwyr | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu (Grŵp A) | E-ddysgu | | | | | | | | | | | | |
| Diogelu Grŵp B – Plant ac Oedolion | Mewnol | | | | 2 | | 9 | | 25 | | 20 | | |
| Diogelu Grŵp C – Oedolion | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | | |
| Diogelu Grŵp C – Plant | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | | |
| Deall Ymddygiad Rhywiol Niweidiol | Sefydliad Lucy Faithful | I'w gadarnhau | | | | | | | | | | | |
| Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - **I STAFF NAD YDYNT YN GWEITHIO I CSyFf** | E-ddysgu | | | | | | | | | | | | |
| Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - Staff uwch | E-ddysgu | | | | | | | | | | | | |

# CYRSIAU HYFFORDDI ERAILL

Bydd cyrsiau ychwanegol yn cael eu datblygu/comisiynu yn ystod y flwyddyn yn erbyn blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd y rhain yn cael eu hysbysebu pan fyddan nhw ar gael.

# HYFFORDDIANT YCHWANEGOL GAN BARTNERIAID

## Adferiad

# HYFFORDDIANT / GWYBODAETH AM DDIM

Yn ychwanegol at ein cyrsiau a gomisiynwyd, rydym ni wedi llunio rhestr o ddeunyddiau hyfforddi / hyfforddiant rhad ac am ddim a allai fod o ddiddordeb i chi. **Fodd bynnag, noder nad yw'r Tîm Datblygu'r Gweithlu yn ardystio'r hyfforddiant hwn a chyfrifoldeb yr unigolyn a'i reolwr yw barnu ansawdd yr hyfforddiant a pha mor addas ydyw.**

| Hyfforddiant | Trosolwg Cryno | Lefel | Manylion y Darparwr | Hyd y Cwrs | Tystysgrif |
|---|---|---|---|---|---|
| Profiad Niweidiol yn Ystod Plentyndod a thrawma plentyndod cynnar | Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael o'r safle a nodwyd. | Sylfaenol | https://www.acesonlinelearning.com/ | Dysgu ar eich cyflymder eich hun | ✗ |
| Awtistiaeth Cymru | Modiwlau e-ddysgu<br>• Deall Awtistiaeth<br>• Deall Cyfathrebu Effeithiol ac Awtistiaeth | Sylfaenol | https://autismwales.org/cy/adnoddau/dysgu-electronig/ | Dysgu ar eich cyflymder eich hun | ✓ |
| Diabetes | Dolen i'r adnoddau sydd ar gael ynghylch diabetes | Sylfaenol | https://www.diabetes-care.wales/cy/<br>www.diabetes-care.wales | Dysgu ar eich cyflymder eich hun | ✗ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymunedau Digidol Cymru CWMPAS | Mae Cymunedau Digidol Cymru yn gweithio tuag at greu amgylchedd yng Nghymru lle mae gan bawb y sgiliau, y gallu a'r cymhelliant i ddefnyddio technoleg yn hyderus. | Sylfaenol a Chanolradd | https://cy.cwmpas.coop/yr-hyn-a-wnawn/gwasanaethau/cymunedau-digidol-cymru/ | Darperir hyfforddiant | ✓ |
| Rheoli Heintiau | Modiwlau e-ddysgu Gofal Cymdeithasol Cymru ar reoli heintiau<br>• Cyflwyniad i atal a rheoli heintiau (lefel 00)<br>• Ennill a defnyddio gwybodaeth sylfaenol am atal a rheoli heintiau (lefel 1)<br>• Gwybodaeth, dealltwriaeth a chymhwysiad cadarn o atal a rheoli heintiau (lefel 2) | Lefel 1 a Lefel 2 – Sylfaenol | Y ddolen i'r safle Cymraeg yw Modiwlau dysgu \| Gofal Cymdeithasol Cymru<br><br>Y ddolen i'r safle Saesneg yw Social Care Wales \| Learning modules | Dysgu ar eich cyflymder eich hun | ✓ |
| Llwyfan Dysgu Corfforaethol Sir y Fflint | Modiwlau E-ddysgu ar gyfer staff Cyngor Sir y Fflint. Mae angen mewngofnodi i'r safle.<br>Mae dros 140 o gyrsiau ar gael. | Modiwlau gorfodol a modiwlau corfforaethol | | Dysgu ar eich cyflymder eich hun | ✓ - Sir y Fflint |
| Hyfforddiant Iechyd a Lles | Sesiynau wedi'u recordio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru | | https://phw.nhs.wales/services-and-teams/aware-health- | Sesiynau gwybodaeth wedi'u recordio | Ddim yn gwybod |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | protection-team/health-protection-e-learning-for-social-care-staff/ | | |
| Clefyd Niwronau Motor (MND) - Cymdeithas MND | Modiwl ar-lein wedi'i ategu gan weminarau'n ymwneud ag MND | | https://www.mndassociation.org/professionals/professional-education-and-development/webinars | Dysgu ar eich cyflymder eich hun | × |
| Mwy na Geiriau | Mwy Na Geiriau yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2016 i hyrwyddo'r Gymraeg ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd. | | https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/pecyn-gwybodaeth-gweithredu%E2%80%99r-cynnig-rhagweithiol-gwasanaethau-cymdeithasol-a-gofal-cymdeithasol_1.pdf | Gwybodaeth | × |
| Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru | Gwybodaeth am ddigwyddiadau a hyfforddiant ar draws Gogledd Cymru.<br><br>Briffiau 7 munud ar gael. | Pob lefel | https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/ | Cyfeiriad | × |
| Clefyd Parkinson | Modiwl dysgu Parkinson's UK | Sylfaenol | https://www.parkinsons.org.uk/professionals/parkinsons-learning-pathway-health-care-staff | Dysgu ar eich cyflymder eich hun | Ddim yn gwybod |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Hyfforddiant Prevent<br><br>Staff nad ydynt yn gweithio i CSyFf | Hyfforddiant ar y ddyletswydd Prevent, y bygythiad gan derfysgaeth ac eithafiaeth yn y DU a sut i gefnogi pobl sy'n ddiamddiffyn yn erbyn radicaliaeth.<br><br>Mae modiwl e-ddysgu newydd wedi'i lansio sy'n orfodol ar gyfer pob aelod o staff Cyngor Sir y Fflint. | Sylfaenol a Chwrs Gloywi | www.gov.uk/prevent-duty-training<br><br>http://www.support-people-vulnerable-to-radicalisation.service.gov.uk/portal#awareness-course | Dysgu ar eich cyflymder eich hun | Ddim yn gwybod |
| Diogelu | Modiwl e-ddysgu Gofal Cymdeithasol Cymru ar ddiogelu | Sylfaenol | Y ddolen i'r safle Cymraeg yw Modiwlau dysgu \| Gofal Cymdeithasol Cymru<br><br>Y ddolen i'r safle Saesneg yw Social Care Wales \| Learning modules | Dysgu ar eich cyflymder eich hun | ✓ |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | Mae amrywiaeth o fodiwlau ar gael ar y safle hwn. | Sylfaenol | https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/modiwlau-dysgu | Dysgu ar eich cyflymder eich hun | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o Hunanladdiadau | Mae amrywiaeth o adnoddau a modiwlau e-ddysgu ar gael ar y safleoedd hyn. | Sylfaenol | https://www.samaritans.org/wales/about-samaritans/research-policy/internet-suicide/internet-safety-practitioners/training-resources/e-learning-module/<br><br>https://zerosuicidealliance.com/<br><br>Modiwlau e-ddysgu am ddim yn Gymraeg ac yn Saesneg. | Dysgu ar eich cyflymder eich hun | ✓ |
| Tourette | Mae Tourettes Action wedi creu modiwl e-ddysgu newydd o'r enw Deall Syndrom Tourette. | Sylfaenol | Modiwl e-ddysgu Tourettes Action (tourettes-action.org.uk) | Dysgu ar eich cyflymder eich hun | ✓ |
| Modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg | Mae'r modiwl hwn ar gyfer gweithwyr a myfyrwyr yn y sector gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n dymuno dysgu mwy am yr | Sylfaenol | https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/defnyddior-gymraeg-yn-y-gweithle?_gl=1*xonamp*_ga*MTY1OTYwNzc4MS4xNzEwNDE0OTY3* | Bydd y modiwl yn cymryd tua 30 munud i'w gwblhau | ✓ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | iaith Gymraeg, diwylliant Cymru a gweithio'n ddwyieithog. | | _ga_NZV6WMW0HJ*MTcxMDQxNDk2Ni4xLjAuMTcxMDQxNDk2Ni4wLjAuMA.. | | |